Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Equality, Local Government and Communities Committee

ELGC(5)-11-16 Papur 4 / Paper 4

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Carl Sargeant AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

21 Hydref 2016

Annwyl Carl,

**Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015: ymchwiliad ar ôl y broses ddeddfu**

Rwy'n ddiolchgar iawn i chi a'ch swyddog am roi o'ch amser i roi tystiolaeth i'm Pwyllgor ar 19 Hydref. Codwyd nifer o bwyntiau y byddech, meddech chi, yn fodlon ymateb iddynt mewn nodyn i'r Pwyllgor yn dilyn eich tystiolaeth. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymatebion ysgrifenedig i'r materion a ganlyn:

- Os na chaiff y strategaeth genedlaethol ei chyhoeddi ar amser, beth fydd y canlyniadau cyfreithiol?
- Beth yw statws cyfreithiol y Cynllun Cyflenwi a sut y bydd yr amcanion / gofynion yn cael eu gorfodi?
- Pa gosbau y mae'r Ddeddf yn darparu ar eu cyfer, neu sydd ar gael i Ysgrifennydd y Cabinet, os nad yw Awdurdodau Lleol yn cadw at ofynion y Ddeddf?
- Nifer yr ysgolion sy'n defnyddio'r Canllawiau Arfer Da ar Berthnasoedd Iach ar hyn o bryd a phryd y bydd awdurdodau lleol yn dechrau adrodd ar y Ddeddf;
- Trefniadau cytundebol y Cynghorydd Cenedlaethol. Mae hyn yn ymwneud ag adnoddau a sawl diwrnod yr wythnos y bydd yn gweithio dan gontract;
- Nifer yr achosion o FGM yng Nghymru ac unrhyw wybodaeth ychwanegol am wasanaethau arbenigol sydd ar gael ar hyn o bryd.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y materion allweddol a gododd o'i ymchwiliad ddechrau mis Tachwedd gyda'r bwriad o baratoi adroddiad yn fuan wedyn. Gan hynny, byddwn yn croesawu ymateb cyn gynted â phosibl ac erbyn dydd Gwener 12 Tachwedd fan bellaf.

Cofion cynnes

John

John Griffiths AC / AM
Cadeirydd / Chair

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565